**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 18-02(p4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **12 Rhagfyr 2002** |
| **Amser:** | **9.00 – 12.30** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd** |
| **Teitl:** | **Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth: Y Diweddaraf ar Hynt y Cynllun** |

**Diben**

1. Paratowyd y papur sydd ynghlwm gan Awdurdod Datblygu Cymru ar gais y Pwyllgor, ac mae'n adrodd ar y broses o roi'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth ar waith.

2. Paratowyd yr adroddiad cynnydd gan Awdurdod Datblygu Cymru a bydd Iain Willox yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau manwl.

**Yr Is-adran Polisi Economaidd**
**Tachwedd 2002**

**Adroddiad WDA ar y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth**
**Tachwedd 2002**

## Rhagarweiniad

1. Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi ei baratoi gan Awdurdod Datblygu Cymru, yn dwyn ynghyd yr amrediad eang o weithgareddau sy'n cael eu cynnal gan y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth (CGE). Oherwydd maint y gwaith sy'n cael ei gynnal, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y prif gynnydd hyd yma. Rhoddir manylion ar brosiectau unigol yn yr atodiadau gan gynnwys taflenni a deunydd hyrwyddo i ddangos amrywiaeth a chynnwys y gwahanol fentrau. Mae Atodiad A yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn targedau, dengys Atodiad B yr adnoddau a nodwyd hyd yma.

## Cefndir: Cyflawniad Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth

2. Ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor yn Rhagfyr 2001 ar gynnydd yng Nghyflawniad CGE, mae'r Panel Cyflawniad (PCE), sy'n cael ei gadeirio gan Roger Jones, wedi bod yn weithredol yn arwain cynnydd a chynnal cyfeiriad y CGE. Mae'r Panel yn parhau i gyfarfod yn chwarterol pan fydd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan ysgrifenyddiaeth y CGE a'r prif sefydliadau allweddol.

3. Mae cyflawniad y CGE yn parhau i fod yn seiliedig ar chwe gweithred allweddol (GA):

GA1 Hyrwyddo Diwylliant Entrepreneuriaeth
GA2 Entrepreneuriaeth o fewn Datblygiad Gyrfa
Entrepreneuriaeth o fewn Addysg Gynradd ac Uwchradd
Rhaglenni Menter mewn Addysg Uwch a Phellach
GA3 Blas ar Fenter
GA4 Entrepreneuriaeth yn yr Economi Cymdeithasol
GA5 Strategaeth Cyfradd Geni Busnes ar gyfer Cymru
GA6 Entrepreneuriaeth mewn Busnesau Twf

## Cynnydd a gweithgarwch hyd yma

5. Er ei fod yn parhau'n ddyddiau cynnar i'r rhaglen CGE, (fe'i cymeradwywyd yn Rhagfyr 2000), mae'r dystiolaeth sydd ar gael eisoes yn dangos y gallasai fod rhywfaint o gynnydd gydag annog diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru. Un o'r prif ddangosyddion a ddefnyddiwyd i fesur cynnydd yw'r niferoedd o fusnesau newydd sydd wedi eu creu o ganlyniad i'r ymyriadau hyn. Mae'r data'n dangos bod 2,025 o fusnesau newydd wedi eu creu yng Nghymru gyda chymorth y

WDA yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn – cynnydd o 61.4% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, pan roedd y ffigwr yn 1,244.
Yn ogystal, mae 838 o fusnesau wedi derbyn cymorth gan Borth Cenedlaethol y WDA yn ystod y chwe mis diwethaf.

Dangosir y lefel uwch o weithgaredd i ryw raddau yn y mynegai GEM[1] diweddaraf ar gyfer Cymru sy'n awgrymu fod y canran o oedolion sy'n ymwneud â gweithgareddau entrepreneuraidd, boed hynny yn weithredol trwy ddechrau ar y broses cychwyn neu redeg cwmni bychan newydd, tua 6% yn ystod 2001, sydd 3.7% yn uwch na 2000.

## Gweithrediadau Unigol

### GA1 Hyrwyddo Diwylliant Entrepreneuraidd

Mae hyn yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau gan gynnwys:

- Lansiad rhaglen codi ymwybyddiaeth fawr yn ystod yr haf a'r hydref o dan y teitl 'gallwch', i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd hunan-cyflogaeth. Rhoddwyd hysbysebion ar fyrddau poster a bysiau (gweler Atodiad 1), a defnyddiwyd hysbysebion radio i godi lefel ymwybyddiaeth o'r cymorth i gychwyn busnes. O ganlyniad cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau i Ganolfan-alw Cyswllt Busnes. Cyfanswm o 2,752 dros 13 wythnos, 212 yn ychwanegol ar gyfartaledd bob wythnos.

- Sefydlwyd cyd fenter gyda'r BBC i gynhyrchu rhaglen o'r enw 'The Biz' (Atodiad 2), lle fydd busnesau newydd yn cael eu dilyn yn ystod eu blwyddyn masnachu cyntaf gan griw camera. Bydd y 'The Biz' yn cael ei ddarlledu yn ystod amser teledu oriau brig a anelir at gynulleidfa brif ffrwd. Mae'r 3 bennod gyntaf eisoes wedi eu darlledu ar 2W (digidol) yn dechrau ar 11/11/02. Bydd rhain yn cael eu hail-ddarlledu ar BBC 1 Cymru analog ym mis Ionawr. Bydd y prif gyfres yn cael ei darlledu yn ystod mis Medi/Hydref 2003 ar BBC 1 Cymru analog. (ni fu'n bosib cloriannu'r darllediadau digidol gan fod y gynulleidfa yn rhy fychan ar hyn o bryd). Mae'r ymgyrch hysbysebu nawr wedi dechrau'r ail gyfnod gyda galwad cryfach i weithredu. Dylid nodi, er hynny, nad yw newidiadau diwylliannol yn digwydd yn gyflym a bydd cryn dipyn o amser cyn y gwelir yr effaith lawn fel y gellir gweld gyda rhaglenni tebyg, megis ymgyrchoedd addysg iechyd.

[1] Sefydlwyd prosiect Monitro Entrepreneuriaeth Byd-Eang (GEM – Global Entrepreneurship Monitor) yn 1997 ar y cyd rhwng Coleg Babson – canolfan entrepreneuriaeth flaenllaw yn yr Unol Daleithiau – ac Ysgol Fusnes Llundain. Prif nod GEM yw dwyn ynghyd prif ysgolheigion entrepreneuriaeth y byd i archwilio a deall entrepreneuriaeth a'i gyswllt â thwf economaidd. Arweinir yr ymchwil yng Nghymru gan yr Athro Dylan Jones-Evans o Brifysgol Cymru Bangor a'r Athro David Brooksbank o Brifysgol Morgannwg.

- Mae dros 300 o ddelfrydau ymddwyn entrepreneur wedi eu recriwtio a thros 130 o ddelfrydau ymddwyn addysg wedi'u hyfforddi hyd yma. Cânt eu defnyddio mewn prosiect o'r enw 'Dynamo' i annog diddordeb pobl ifanc mewn entrepreneuriaeth (Atodiad 3). Gall pob ysgol uwchradd yng Nghymru bellach gyrchu prosiect Dynamo. Mae cyfres o ddeunydd aml-gyfrwng i gyd-fynd â'r delfrydau ymddwyn wedi eu darparu erbyn hyn.

  Nodyn Mae HTV bellach wedi comisiynu rhaglen ddogfen 6 rhan ar fusnesau sydd newydd gychwyn.

## GA2 Addysg Entrepreneuriaeth Trwy'r Broses Addysg Gyfan

Rhwng Tachwedd 2001 a Mawrth 2002 cynhaliwyd asesiad o addysg entrepreneuriaeth addysg gynradd ac uwchradd (Atodiad 4). Yn dilyn hyn, gweithredwyd fel a ganlyn er datblygu addysg entrepreneuriaeth ymhellach:

- Mae Gweithgor Cenedlaethol ar gyfer Datblygu Gyrfa Entrepreneuraidd wedi ei sefydlu, sy'n cael ei gadeirio gan Gyrfa Cymru ac yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau allweddol megis LICC, ELWa, Fforwm a Sefydliad y Cyfarwyddwyr.

- Mae Cynllun Gweithredu i symud addysg entrepreneuriaeth ymlaen wedi ei ddatblygu ac wedi ei gymeradwyo gan Brif Weithredwyr Gyrfa Cymru.

- Mae gwaith datblygu eisoes ar y gweill i gynhyrchu deunydd ar gyfer y dosbarth i'w hintegreiddio o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn, mewn ymgynghoriaeth agos ag ACCAC, yn symud ymlaen yn dda ac mae drafft cyntaf y deunydd yn cael ei brofi ar hyn o bryd mewn ysgolion, gyda phrawf ehangach yn cael ei gynllunio at dymor y gwanwyn 2003.

Mae gweithgareddau eraill yn y sector addysg yn cynnwys:

- 'Mewnwelediad Menter Cymru' gafodd ei lansio yn ystod mis Mehefin eleni. Partneriaeth yw hwn rhwng y CBI, Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Siambrau Masnach. Maent wedi recriwtio dros 130 o gynrychiolwyr busnes hyd yma sydd wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gydag ysgolion (Atodiad 5). Canolbwynt y digwyddiad lansio oedd cyhoeddiad enillwyr Sialens Fyd-eang 24 awr yr 'Olympau Menter'. Y sialens oedd profi gallu ac arloesedd busnesau, gyda thimau o 12 gwlad gan gynnwys Seland Newydd, UDA, Rwsia a De Affrica yn ogystal â

gwledydd Ewropeaidd eraill. Cynrychiolwyd Cymru gan grŵp o ddisgyblion 14 oed o Ysgol Uwchradd Corpus Christi yng Nghaerdydd.

- Mae'r E-Goleg, sy'n cael ei ddelifro gan Brifysgol Morgannwg a saith partner, yn parhau i fod yn llwyddiannus. Gan ddefnyddio'r rhyngrwyd, gall myfyrwyr gyrchu deunyddiau cwrs pedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae proffil y myfyrwyr yn annhebyg iawn i rai addysg uwch yn gyffredinol – mae 39% dros 40 oed, 64% ohonynt yn awyddus i gychwyn busnes newydd eu hunain a 29% ohonynt eisoes yn rhedeg busnesau eu hunain (gweler Atodiad 6). Mae arian Amcan Un ar gyfer Cam 2 yr E-Goleg wedi ei gymeradwyo.

- Mae Cronfa Ymwela ar Wybodaeth (CYW), a arweinir gan ELWa, hefyd yn cael ei ystyried am arian Amcan Un. Mae'r rhif a'r amrywiaeth o ysgoloriaethau CYW yn cynyddu gyda thros 190 wedi eu dyfarnu hyd yma. Mae CYW yn y broses o sefydlu Fforwm Rhwydweithio Ysgoloriaeth Entrepreneuriaeth Cymru i hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth a darparu cefnogaeth i'w gilydd.

  Mae gan CYW ran sylweddol i'w chwarae yn natblygiad Entrepreneuriaeth yng Nghymru, gan ei fod yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr o sefydliadau Addysg Uwch a Phellach Cymreig i sefydlu busnesau newydd, a thrwy hynny ddarparu màs critigol o entrepreneuriaid newydd.

- Mae Rhaglen Graddedigion Menter yr Ifanc wedi ei gyflwyno mewn 13 o sefydliadau Addysg Uwch a Phellach ledled Cymru. Gan adeiladu ar yr hanes sylweddol o ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, gallwn edrych ymlaen at gyflawni canlyniadau tebyg yn y sectorau addysg uwch a phellach, megis a gyflawnwyd gan Ysgol Tregib, buddugwyr rowndiau terfynol Cymru a'r DG, a'r trydydd safle yn rownd derfynol Ewrop gyfan yn Awst 2002 (Atodiad 8).

**GA3/GA4 Blas Menter ac Entrepreneuriaeth yn yr Economi Gymdeithasol**

Gan ganolbwyntio'n benodol ar yr economi cymdeithasol, ymgymerwyd â'r gwaith canlynol:

- Gan weithio mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Economi Cymdeithasol, mae'r WDA wedi comisiynu ymchwilwyr o Brifysgol Morgannwg i fapio'r economi cymdeithasol (gweler Atodiad 9). Arwyddocâd y prosiect ymchwil o ran CGE yw y gwnaiff ddarparu data gwaelodlin o'r hyn y gellir sefydlu nifer y mentrau sy'n bodoli eisoes a mesur twf y sector. Bydd y data hefyd yn darparu gwybodaeth ar faint ac anghenion y mentrau

unigol – a fydd yn ein galluogi i dargedu ein hadnoddau; a gwybodaeth ar y meysydd twf potensial a fydd eto'n ein galluogi i dargedu adnoddau er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau. Mae hyn bellach bron wedi'i gwblhau. Caiff amrywiaeth o astudiaethau achos eu hamlinellu, er mwyn dangos dewis o ymarfer da o drefi a chefn gwlad Cymru, a phob sector o fewn yr economi cymdeithasol (e.e. amgylcheddol, cymdeithasol, busnesau cydweithredol a chymunedol, ymddiriedolaethau datblygu ayb).

- Blas ar fenter. Trwy gyd-weithio, mae'r Ffatri Fenter (Atodiad 10), Ymarfer Menter (Atodiad 11) a phrosiectau Kick Start wedi galluogi 480 o unigolion i dderbyn cyngor ac mae 127 o fusnesau masnachu prawf wedi eu sefydlu.

- Mae'r prosiect Ymarfer Menter yn ystyried ffyrdd o daclo 'trapiau budd'. Rhoddir cymorth i'r bobl hynny sydd ar fudd-dâl diweithdra i'w helpu i gychwyn busnes a masnachu am hyd at chwe mis; yn ystod y cyfnod hwn, cedwir unrhyw dderbynebau o hyfforddiant mewn cyfrif daliad. Ar ddiwedd y cyfnod chwe mis, gall yr unigolyn wneud penderfyniad i barhau â'r busnes, ac os felly, byddant yn gorffen derbyn y buddion a bydd y derbynebau yn ystod y chwe mis cyntaf yn cael eu rhoi yn eu cyfrif. Ar y llaw arall, os byddant yn teimlo nad yw'r busnes yn gweddu iddynt, ni fyddant yn colli eu buddion ac yn aml byddant wedi dysgu sgiliau defnyddiol ar gyfer swyddi eraill.

- Mae'r Ffatri Fenter yn darparu cyfle i bobl ifanc roi cynnig ar syniad busnes am gyfnod penodol. Mae'n unigryw oherwydd ei fod yn creu amgylchedd "gwneud go iawn" a chael blas mentro ar risg isel heb golli unrhyw ffrydiau incwm eraill. Y nod yw troi entrepreneuriaeth botensial ddirgel yn realiti. Mae hyder a chreadigedd yn cael eu meithrin yn ogystal â thrawsffurfio syniadau busnes yn realiti. Mae'r prosiect yn benodol yn targedu pobl ifanc na fyddai fel rheol yn ystyried hunan-gyflogaeth fel opsiwn realistig.

O fewn yr economi cymdeithasol, mae dros 200 o grwpiau wedi derbyn cymorth uniongyrchol, a bron i 902 o entrepreneuriaid newydd wedi'u hadnabod a'u cefnogi trwy waith Canolfan Cydweithredol Cymru.

### GA5/GA6 Strategaeth Cyfradd Geni Busnes

O ran geni busnesau newydd, mae dau faes o bwysigrwydd neilltuol. Y cyntaf yw gweithgareddau cyn-cychwyn, lle mae CGE yn annog nifer fawr o bobl i gyflwyno eu hunain; yr ail yw cefnogaeth cychwyn cyffredinol.

O ystyried gweithgaredd '**cyn cychwyn** busnes':

- Fel rhan o brosiect Potentia, mae dros 1700 o bobl wedi derbyn cymorth i sefydlu busnes.

    - Mae Potentia yn canolbwyntio'n benodol ar bobl anabl, yr ifanc (o dan 30 oed), rhieni sengl, siaradwyr Cymraeg, lleiafrifoedd ethnig a'r rhai hynny sydd dros 50 oed.

    - Mae gan bob un o'r grwpiau hyn anghenion a gofynion gwahanol, mae rhai wedi eu tan-gynrychioli o ran cychwyn busnes, ac eraill wedi eu tan-gynrychioli o ran derbyn gwasanaethau cyhoeddus.

    - Mae Potentia'n cyd-weithio'n agos iawn gyda darparwyr cychwyn busnes y WDA, nid yn unig o ran ymgynghori, gyda thua 500 o'u clientiaid eisoes wedi symud ymlaen i gychwyn busnes, ond hefyd o ran cynyddu cynhwysedd y brif-ffrwd i weithio gyda set mor amrywiol o glientiaid.

    - O ystyried anghenion arbennig y grŵp client hwn, darperir hyfforddiant wedi eu deilwra ar gyfer pob un o'r contractwyr cychwyn busnes, ac o ganlyniad, ceir cynllun gweithredu ar gyfer y sefydliad hwnnw i wella eu gallu i weithio gyda chynulleidfa ehangach.

    - Bydd y cymorth hwn yn golygu cyfranogiad staff uniongyrchol o'r holl asiantaethau cychwyn busnes yn ystod y 18 mis nesaf, a darparwyd yr hyfforddiant gan arbenigwyr ar feysydd anabledd, gwahaniaethu ar sail oedran, rhyw, hil a iaith (Atodiad 12).

- Mae Prime Cymru ar gontract i ddarparu cymorth cefnogaeth cychwyn busnes fel rhan o brosiect Potentia. Daw'r cwmni o Lanymddyfri a chan ddarparu'r cymorth cenfogaeth trwy gyfrwng tîm o gynghorwyr client, mae Prime Cymru'n gweithio'n bennaf gyda phobl dros 50 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, sy'n ddi-waith, sydd wedi ymddeol yn gynnar, neu sy'n ystyried sefydlu busnes arddull bywyd. Mae cynghorwyr client wedi sefydlu cysylltiadu cryf gyda darparwyr prif-ffrwd yn eu meysydd penodol ac mae Potentia yn gweithredu fel mecanwaith cyfeirio effeithiol i'r sefydliadau hyn.

**<u>Gweithgareddau cychwyn Busnes Newydd</u>**:

- Dwyn ynghyd y rhaglen a etifeddwyd gan y Cynghorau Hyfforddiant a Menter yn weithgaredd unigol Cymru-gyfan er mwyn rhoi gwell strwythur i'r farchnad a thrwy hynny deilwra'r gwasanaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno cychwyn busnes o dan drothwy cofrestriad TAW a gwasanaeth i'r rhai sydd â busnesau mwy. Mae pob gwasanaeth wedi ei dendro'n llawn ac yn agored, ac mae pob darparydd porth a

darparydd gwybodaeth wedi derbyn rhestr glir o'r contractwyr hynny, a thrwy hynny, gobeithiwn leihau'r cymhlethdodau ynglŷn â phwy i droi atynt pan yn ystyried sefydlu busnes (Atodiad 13).

Mae'r awdurdod yn dod i ben gyda thendrau ar gyfer y rhaglen cychwyn Busnes Newydd twf uchel y cyfeirir ato yn y CGE, ac a gymeradwywyd gan Brif Weinidog Cymru y llynedd. Mae'r rhaglen wedi ei dendro'n llawn ac yn disgwyl sêl bendith ar sail Cymorth Gwladwriaeth; bydd y gwasanaeth hyn yn gwneud defnydd mawr o'r cymorth sector preifat y mae cwmnïau sy'n gweithredu gyda throsiant o £1 miliwn a throsodd y flwyddyn ei angen.

Caffael Sector Cyhoeddus

- Mae Gwefan Caffael Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu gan y WDA a Thîm Menter Caffael Cymreig Llywodraeth Cynulliad Cymru, GIG Cymru a chyfranddalwyr eraill y sector cyhoeddus, a gwnaiff ddarparu cyfle sylweddol i ysgogi twf cwmnïau entrepreneuriaidd yng Nghymru a chwrdd â gofynion adolygiad Gwell Gwerth Cymru o gaffael sector cyhoeddus. Gydag amcangyfrif gwariant o £3 biliwn byddai hyd yn oed cynnydd bychan mewn pryniant lleol yn cael effaith ddramatig ar SMEau Cymru a sector cyhoeddus Cymru, gan y byddai'n cynnig cyfleoedd busnes real i SMEau Cymru, a wnaiff ysgogi gwelliant yn effeithlonrwydd cyflenwyr, a'r gallu i ymateb ac yn sgil hynny, y costau llinell waelod, tra fod y sector cyhoeddus yn cael mantais costau pryniant is. Mae Atodiad 14 yn dangos y prif nodweddion y safle arfaethedig. Bydd angen cyflenwi'r gwaith yma trwy ymestyn gwasanaethau cynghori SMEau mewn prosesau Caffael Cyhoeddus, y mae rhai enghreifftiau da ohonynt eisoes i'w cael ledled Cymru, megis y Siop Gytundebau.

Cyllid Cymru

- Cyfraddau gweithgaredd uwch gan Cyllid Cymru. Bargeinion dan arweiniad Cyllid Cymru (Atodiad 15) wedi chwistrellu cyfanswm o £17.8 miliwn i 72 o gwmnïau newydd neu gwmnïau sy'n ehangu rhwng dechrau Ebrill a diwedd Awst. Arweiniodd benthyciad uniongyrchol a buddsoddiad ecwiti o £5 miliwn at £12.8 miliwn o fuddsoddiad sector preifat pellach. Mae hyn dros ddwy waith gwerth y buddsoddiad yn ystod yr un cyfnod o'r flwyddyn ariannol flaenorol (£6.8 miliwn). Yn ystod y flwyddyn hyd yma, roedd nifer y busnesau "deillio" a gefnogwyd gan Cyllid Cymru wedi dyblu, gyda 18 menter masnachol newydd yn datblygu o golegau a phrifysgolion Cymru.

**Casgliad**

9. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r wybodaeth, sy'n rhoi manylion o'r cynnydd cyfredol ar gyflawniad.

Tachwedd 2002 Awdurdod Datblygu Cymru

**ALLBYNNAU YN ERBYN TARGEDAU: CRYNODEB AR 14.11.02** **ATODIAD A**

| | 2001 / 02 | | | 2002/ 03 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **GA1** | **Mewn Gwirionedd** | | | **Mewn Gwirionedd** | | |
| **Ymgyrch Codi Ymwybyddiaeth** | **Targed** | **Canlyniad hyd yma** | **Gwahaniaeth** | **Targed** | **Allbwn hyd yma** | **Gwahaniaeth** |
| Entrepreneuriaid adnabuwyd a ddefnyddiwyd fel delfrydau ymddwyn | 70 | 130 | +60 | 180 | 198 | +18 |
| Pobl (delfrydau ymddwyn) hyfforddwyd i gyfranogi mewn gweithgareddau Addysgol | 20 | 20 | 0 | 60 | 112 | +52 |
| Nifer y bobl dargedwyd gyda negeseuon cadarnhaol | 20000 | 80000 | +60000 | 500,000 | 1,817,510 | +1,317,510 |

Mae'r prosiect yma bellach ar gyfer 'cymru gyfan', ac er mwyn cyllido'r allbynnau
ychwanegol, clustnodwyd adnoddau ariannol ychwanegol o'r tu allan i Amcan 1 ar
ei gyfer a ddaw'n bennaf o'r WDA, gyda chanran is o arian Amcan 2.

## ALLBYNNAU YN ERBYN TARGEDAU: CRYNODEB AR 14.11.02 **ATODIAD A**

| | 2001 / 02 | | | 2002/ 03 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **GA2** | **Mewn Gwirionedd** | | | **Mewn Gwirionedd** | | |
| **Entrepreneuriaeth mewn addysg** | **Targed** | **Canlyniad hyd yma** | **Gwahaniaeth** | **Targed** | **Canlyniad hyd yma** | **Gwahaniaeth** |
| Cynghorwyr gyrfa, athrawon a darlithwyr sydd wedi'u hyfforddi[2] | 0 | 175 | +175 | 600 | 148 | -452 |
| Unigolion sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant e-goleg | 180 | 180 | 0 | 0 | 380 | +380 |
| Buddiolwyr yn derbyn hyfforddiant menter | 1600 | 1295 | -305 | 4000 | Tba | - |
| Cwmnïau graddedigion gychwynnwyd | 40 | 36 | -4 | 80 | 194 | +114 |
| Staff gafodd hyfforddiant diweddaru | 570[3] | 429[2] | -141 | 250 | 296 | +46 |
| SMEau gynorthwywyd gyda chyngor a/neu hyfforddiant | 3300[2] | 3135[2] | -165 | 1200 | 1192 | -8 |

[2] Canlyniadau'r rhaglen ar gyder 2001/02 a 2002/03 hyd yma ariennir gan LlCC. Tîm cyflawni bellach yn eu lle, prosiect wedi ei integreiddio o fewn rhaglen hyfforddiant corfforaethol Gyrfa Cymru. Gwyddys fod y ffigyrau cyfredol yn amcangyfrif isel; aros diweddariad Cymru-gyfan. .

[3] Diweddarwyd o ffigyrau gwreiddiol 2001/02

**ALLBYNNAU YN ERBYN TARGEDAU: CRYNODEB AR 14.11.02** **ATODIAD A**

| GA3 / GA4- Datblygu Mentrau a'r Economi Cymdeithasol | 2001 / 02 | | | 2002/ 03 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mewn Gwirionedd | | | Mewn Gwirionedd | | |
| | Targed | Canlyniad hyd yma | Gwahaniaeth | Targed | Canlyniad hyd yma | Gwahaniaeth |
| No. of new groups supported | 20 | 47 | 27 | 30 | 220 | +190 |
| No. of new social entrepreneurs | 100 | 72 | -28 | 400 | 902 | +502 |

| GA5 / GA6 -- Geni a Thwf Busnesau Cenedlaethol | 2001 / 02 | | | 2002/ 03 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mewn Gwirionedd | | | Mewn Gwirionedd | | |
| | Targed | Canlyniad hyd yma | Gwahaniaeth | Targed | Canlyniad hyd yma | Gwahaniaeth |
| Cyfanswm y cwmnïau newydd dderbyniodd gymorth cyhoeddus[4] | 4600 | 1800 | -2800 | 6300 | 2388 | -3912 |

[4] Cytunwyd y gyfradd geni busnesau yng nghyfarfod y Bartneriaeth ar 8/11/01; cadarnhawyd cymeradwyaeth WEFO ar 29/10/02. Trafodwyd rhaglen Cychwyn Busnes Newydd Twf Uchel yng nghyfarfod y Bartneriaeth ar 11/04/02; cefnogwyd gan y Bartneriaeth ar 08/08/02, cais wedi ei anfon at WEFO ar 14/08/02. Negodiadau gyda WEFO'n parhau. Bid Amcan Dau a bid trosiannol Amcan Dau ar gyfer y rhaglen cychwyn busnes newydd er twf uchel wedi ei ategu gan Bartneriaeth Rhanbarthol Amcan Dau ar 31/10/02 – y ddau fid wedi eu hanfon ymlaen at WEFO i'w asesu a'u gwirio ar sail cymhwysedd.

2001/03 Cynllun Cyflawniad Entrepreneuriaeth – Adnoddau ddynodwyd hyd yma

**ATODIAD B**

| | | | Rhagamcan Gwariant (£) | Gwariant GA (£) | Amcangyfrif Cyfanswm Cost (£) (1) |
|---|---|---|---|---|---|
| **GA1** | **Hyrwyddo Diwylliant Entrepreneuraidd** | | | | |
| | ~ | Prosiect WDA/UE Amcan Un cymeradwy (2001/2003) | 9.8m | | |
| | ~ | Darpar fid Amcan 2 WDA – nad yw'n Amcan Un | 3.1m | 14.7m | 20.15m |
| **GA2 A1** | **Entrepreneuriaeth o fewn Datblygiad Gyrfa** | | | | |
| | ~ | Gyrfa Cymru: darpar gais Amcan Un | 0.14m | 0.14m | 0.35m |
| **GA2 A2** | **Entrepreneuriaeth o fewn Addysg Gynradd ac Uwchradd** | | | | |
| | ~ | Gwaith ACCAC Mewnweledlad Menter Cymru | 0.34m | 0.1m | 6.46m |
| **GA2 A3** | **Rhaglenni Menter Addysg Uwch a Phellach** | | | | |
| | ~ | Cronfa Ymelwa ar Wybodaeth (2001/2003) | 8.6m | | 14m |
| | ~ | E-Goleg Prifysgol Morgannwg: cais Amcan Un cymeradwy | 7.9m | 6.4m | 14.3m |
| **GA3** | **Blas ar Fenter** | | | | |
| | ~ | Y Ffatri Fenter: WDA/UE | 1.70m | | |
| | | Prosiect Amcan Un cymeradwy | | | |
| | | | | | |
| | ~ | Darpar gais Amcan 2 WDA | 1.125m | 2.82m | 3.4m |
| **GA4** | **Entrepreneuriaeth yn yr Economi Cymdeithasol** | | | | |
| | ~ | (Cais Amcan Un cymeradwy Coop Cymru – Undeb Credyd) | (2.70m) | | |
| | ~ | Entrepreneuriaid Cymdeithasol: cais Amcan Un cymeradwy | 0.30m | | |
| | ~ | Bidiau Amcan Un lleol cymeradwy | 0.65m | 3.65m | 4.8m |

(1) Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys yr amcangyfrif gwariant gofynnol o dan pob un o'r Gweithredoedd Allweddol fel y'u nodir yn y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth baratowyd yn 2000.

2001/03 Cynllun Cyflawniad Entrepreneuriaeth – Adnoddau ddynodwyd hyd yma

**ATODIAD B**

| | | | **Rhagamcan Gwariant (£)** | **Gwariant GA (£)** | **Amcangyfrif Cyfanswm Cost (£)** (1) |
|---|---|---|---|---|---|
| **GA5** | **Strategaeth Cyfradd Geni Busnes Cenedlaethol i Gymru** | | | | |
| | ~ | Grwpiau tan eu cynrychiolaeth: bid Amcan Un cymeradwy WDA/UE (POTENTIA) | 6.2m | | |
| | ~ | Grwpiau tan eu cynrychiolaeth: bid WDA nad yw'n Amcan Un (POTENTIA) | 1.5m | | |
| | ~ | Rhaglen Cychwyn Busnes Prif Ffrwd WDA | 15.50m | | |
| | ~ | UE/Cyllid Cymru ~ Benthyciad ac Ecwitî Amcan Un | 13.4m | | |
| | ~ | Menter Menywod Cymru: UE/ Chwarae Teg bid Amcan Un cymeradwy | 1.87m | | |
| | ~ | Menter Menywod Cymru: UE/ Chwarae Teg nad yw'n Amcan Un | 1.0m | | |
| | ~ | Bidiau Amcan Un Lleol cymeradwy | 1.60m | | |
| | ~ | Rhaglen Cychwyn Busnes twf uchel | 9.00m + 6m Cyllid UE posib | 59.25m | 83.4m |
| **GA6** | **Entrepreneuriaeth mewn Busnes Twf** | | | | |
| | ~ | Cyllid Cymru ~ Cyllid Amcan Un[5] | 46m | | |
| | ~ | Bidiau Amcan Un lleol cymeradwy | 0.70m | | |
| | ~ | Bid Amcan Un Menter a Busnes cymeradwy | 0.15m | | |
| | ~ | WDA ~ Menter Masnachwyr Sengl | 1.20m | | |
| | | ~ Gwasanaeth Diagnostig | 4.50m | | |
| | ~ | Cyswllt Busnes | 12.50m | | |
| | ~ | Prosiect MasnachCymru Rhyngwladol Amcan Un | 8.5m | 95.55m | 93.6m |
| | **Cyfanswm adnoddau CGE ddynodwyd hyd yma** | | | **215.70m** | **234.58m** |

5 Mae'r cyfanswm hwn yn cyfeirio at brosiectau Amcan Un; cyfanswm Cymru-gyfan yn defnyddio pob ffynhonnell gyllido £68m